

Canllawiau ynghylch
Llyfrgelloedd a Reolir gan
Gymunedau a Darpariaeth
Statudol Gwasanaethau
Llyfrgelloedd Cyhoeddus
yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru:
Rhoi'r argymhellion ar waith

Dyddiad cyhoeddi 22/05/2015

Llywodraeth Cymru,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3UR.

cymal@wales.gsi.gov.uk
www.gov.wales/cymal

ISBN: 978-1-4734-3445-5 (Saesneg ar-lein)
ISBN: 978-1-4734-3446-2 (Cymraeg ar-lein)

WG25344

Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae cynnwys y ddogfen hon i gyd ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio lle nodwyd fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

A. Crynodeb Gweithredol	2
B. Cyflwyniad	5
C. Beth yw Llyfrgell a Reolir gan Gymuned	6
D. Ystyriaethau Allweddol wrth Ddatblygu'r Meini Prawf	7
E. Tystiolaeth	9
F. Casgliad	16
G. Y Camau Nesaf	17
H. Atodiad 1	18

Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru

A. Crynodeb Gweithredol

1. Roedd Argymhelliad IX yn yr *Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru, 2014*¹ yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol ac i'r sector llyfrgelloedd gan amlinellu meini prawf penodol y dylid eu bodloni i sicrhau y gellir cynnwys llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned fel rhan o ddarpariaeth statudol awdurdod llyfrgell sy'n darparu llyfrgelloedd cyhoeddus.
2. Nod y ddogfen hon yw amlinellu'r meini prawf y dylai llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau eu bodloni. At hynny, mae'r ddogfen yn ceisio nodi yn Atodiad 1 pa ddata perthnasol y gellir eu cynnwys yn natganiadau blynyddol awdurdodau lleol yn unol â *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: Pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17*² (y Safonau).
3. Wedi ystyried yn briodol y dystiolaeth a'r ymatebion i'r 'gwahoddiad i gyflwyno sylwadau' ar y canllawiau drafft, bwriedir derbyn yr argymhelliad a ganlyn a welir yn yr *Adroddiad ar Lyfrgelloedd Cymunedol a Llyfrgelloedd Ymddiriedolaethau Annibynnol yng Nghymru* (yr Adroddiad):

o'r gwahanol fathau o fodolau llyfrgell gymunedol sydd wedi datblygu yng Nghymru yn ddiweddar, yr unig fodel sydd fel petai'n cynnig y cyfle gorau o ran cynaliadwyedd a hyfywedd, ac sydd â'r pwyslais priodol ar ansawdd gwasanaeth, yw'r model sydd â pherthynas waith agos a ffurfiol gyda gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol, sef Model C (y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awr yn ei roi ar waith fesul cam) - llyfrgell gymunedol dan arweiniad awdurdod llyfrgell. Pan geir trefniant ffurfiol o'r fath, gall awdurdod llyfrgell gynnwys y gwasanaethau a gynigir gan y llyfrgelloedd cymunedol hyn [llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau] yn rhan o'i ddarpariaeth statudol, ond byddai hynny'n llwyr yn ôl disgrisiwn yr awdurdod llyfrgell.

4. Roedd yr ymatebion a gafwyd pan gyhoeddwyd y canllawiau drafft (sef yr ymatebion y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 uchod) yn atgyfnerthu'r farn y dylai unrhyw feini prawf ar gyfer darpariaeth statudol llyfrgelloedd cyhoeddus fod yn seiliedig ar yr Hawliau Craidd yn y Safonau. Gan hynny, dylai llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau fodloni'r Hawliau Craidd a ganlyn er mwyn cael eu

¹ Llywodraeth Cymru. (2014). *Yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014*. Ar gael o <http://tinyurl.com/okdznb5>

² Llywodraeth Cymru. (2014). *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: Pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017*. Ar gael o <http://tinyurl.com/pde7toz>

hystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod lleol wrth iddo ddarparu llyfrgelloedd cyhoeddus:

Cwsmeriaid a Chymunedau

SLICC HC 1: Sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu.

SLICC HC 2: Cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

SLICC HC 3: Darparu mynediad at ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol.

Mynediad i Bawb

SLICC HC 4: Bod ar agor i holl aelodau eu cymunedau.

SLICC HC 5: Bod yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy.

SLICC HC 6: Darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas.

SLICC HC 7: Darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.

Dysgu am Oes

SLICC HC 8: Benthycu llyfrau am ddim.

SLICC HC 9: Cynnig mynediad am ddim i wybodaeth.

SLICC HC 10: Darparu defnydd am ddim o'r Rhyngwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi.

SLICC HC 11: Cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd.

SLICC HC 12: Darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau newidiol cyhoeddi.

SLICC HC 13: Rhannu eu catalogau, er mwyn i ddefnyddwyr fedru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru.

Arweinyddiaeth a Datblygu

SLICC HC 14: Hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau.

SLICC HC 15: Ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol. **SLICC HC 16:** Gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.

SLICC HC 17: Darparu mynediad at strategaeth, polisiau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.

SLICC HC 18: Darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le.

5. Gan fod awdurdodau lleol wedi gofyn am hynny, rhoddir canllawiau pellach yn Atodiad 1 i egluro pa ddata y gellir eu cynnwys fel rhan o ddatganiad awdurdod lleol mewn perthynas â'r Safonau. Mae'r canllawiau arfaethedig yn caniatáu i awdurdodau llyfrgell gynnwys rhai data a geir yn sgil cymorth a roesant i lyfrgelloedd a reolir gan gymunedau, er nad ydynt efallai yn bodloni'r meini prawf i gael eu cynnwys fel rhan o'r ddarpariaeth statudol o ran gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.
6. Argymhellir y dylid rhoi'r canllawiau a amlinellir yn y ddogfen hon ar waith o Ebrill 2015 ymlaen a chynnal cynllun peilot am un flwyddyn. Fe adolygir y canllawiau erbyn Ebrill 2016 ac yna cyhoeddir unrhyw newidiadau iddynt.

B. Cyflwyniad

7. Yn unol â Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd 1964 (Deddf 1964) mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod llyfrgell (awdurdodau lleol) yng Nghymru i ddarparu "*gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno ei ddefnyddio*". Datganolwyd y cyfrifoldeb am roi Deddf 1964 ar waith yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd dyletswydd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yw "*arolygu a hyrwyddo*" gwella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.
8. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, fe lansiodd y Dirprwy Weinidog yr *Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru, 2014* (yr Adolygiad) ym mis Hydref 2014.
9. Un o'r prif ystyriaethau ar gyfer y Panel oedd yn gyfrifol am yr adroddiad arbenigol oedd a ddylid cynnwys llyfrgell a reolir gan gymuned fel rhan o ddarpariaeth statudol awdurdod llyfrgell wrth iddo ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.
10. Gwnaed tri argymhelliad allweddol yn yr Adroddiad ar yr Adolygiad:
 - *Ni ddylid ystyried llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau (sef yr hyn a amlinellir ym mharagraff 83) fel rhan o'r ddarpariaeth llyfrgell statudol ar hyn o bryd, yn amodol ar ganfyddiadau'r ymchwil a gynigir yn argymhellion IV a IX. Ni ddylid cynnwys data am lyfrgelloedd nad ydynt yn rhan o'r ddarpariaeth statudol yn yr adroddiadau dan y Fframwaith ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.*
 - *Dylai CyMAL weithredu yn syth i gasglu tystiolaeth ac asesu effaith newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth gwasanaethau llyfrgelloedd ar y gymunedau yr effeithir arnynt yng nghyd-destun gofynion statudol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol*

Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent [Mae hwn wedi cael ei ymestyn i awdurdodau eraill gan fod modelau eraill wedi dod i'r amlwg] er mwyn goleuo'r penderfyniadau y bydd awdurdodau lleol eraill yn eu gwneud yn y dyfodol. Dylai CyMAL gyhoeddi adroddiad ar ôl cyfnod cychwynnol o 3 mis o ymchwil ac adroddiad llawn ar ôl 12 mis.

- *Dylai CyMAL gydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau a dogfennaeth briodol ar gyfer cytundebau partneriaeth sy'n nodi'r gofynion sylfaenol a fyddai'n galluogi llyfrgell a gefnogir gan y gymuned i gael ei hystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol perthnasol fel rhan o'r broses hon. Dylai CyMAL ddatblygu erbyn mis Ionawr 2015 y meini prawf i lyfrgell a gefnogir gan y gymuned gael ei chynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth statudol a rhoi'r rhain ar waith o fis Ebrill 2015 ymlaen*

11. Gan ddilyn yr argymhellion hyn ymhellach, mae'r papur hwn ceisio amlinellu'r meini prawf allweddol ar gyfer penderfynu a ellid cynnwys llyfrgell a reolir gan gymuned fel rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod lleol wrth iddo ddarparu llyfrgelloedd, a hefyd unrhyw effaith y gall hyn ei chael o ran casglu data mewn perthynas â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

12. Er mwyn datblygu'r meini prawf, defnyddiwyd y ffynonellau a ganlyn i gael tystiolaeth:

- *Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd 1964*³
- *A Local Inquiry into the Public Library Service Provided by Wirral Metropolitan Borough Council, dan arweiniad Sue Charteris*⁴
- *Llyfrgelloedd cymunedol a llyfrgelloedd ymddiriedolaethau annibynnol yng Nghymru: ymchwil i natur y ddarpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth arfaethedig, Rhagfyr 2014, comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru*⁵
- *Llyfrgelloedd yn Gwneud Gwahaniaeth: Pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17*
- *Ymatebion rhanddeiliaid i Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau yng Nghymru a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus: Canllawiau Drafft i gael sylwadau*⁶

³ Llyfrfa Ei Mawrhydi. (1964). *Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd 1964*. Ar gael o <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75>

⁴ Adran Diwylliant a Chwaraeon. (2009). *A Local Inquiry into the Public Library Service Provided by Wirral Metropolitan Borough Council, dan arweiniad Sue Charteris*. Ar gael o <http://tinyurl.com/ogzr3qw>

⁵ Roberts, DHE. (2014) *Llyfrgelloedd cymunedol a llyfrgelloedd ymddiriedolaethau annibynnol yng Nghymru: ymchwil i natur y ddarpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth arfaethedig, Rhagfyr 2014, comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru*. Ar gael o <http://wales.gov.uk/CyMAL>

⁶ Llywodraeth Cymru. (2015). *Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau yng Nghymru a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus: Canllawiau Drafft i gael sylwadau*. Ar gael os gofynnir amdano gan Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru.

- Tystiolaeth o amryw o adolygiadau barnwrol mewn perthynas â gwasanaethau llyfrgell

C. Beth yw Llyfrgell a Reolir gan Gymuned?

13. Mae'r term "llyfrgell a reolir gan gymuned" yn cyfeirio at gynnal llyfrgelloedd unigol, sef rhai y pennwyd y dylent gau, drwy i'r gymuned ymyrryd mewn rhyw ffordd. Dyna'r term a ddefnyddir amlaf gan y sector llyfrgelloedd cyhoeddus ac fe'i defnyddir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).
14. Dyma rai o'r modelau a ddisgrifiwyd yn yr Adolygiad, ar gyfer llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yng Nghymru:
 - Y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol yn darparu/cyd-drefnu rhai elfennau o adnoddau a staff, gyda'r adeilad ym mherchnogaeth y gymuned a'r cyngor cymuned yn cyfrannu at gostau'r staff a'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyflogi'r staff (e.e. Sir Gaerfyrddin).
 - Y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol yn darparu ychydig o adnoddau a staff rheolaidd (oriau penodedig), yr adeilad ym mherchnogaeth y gymuned a chymorth gan wirfoddolwyr. (e.e. Conwy).
 - Staff uwch yn y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol yn darparu adnoddau a rhywfaint o gymorth o ran goruchwyliaeth ac arweiniad, gyda'r adeilad ym mherchnogaeth y gymuned ac yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr yn bennaf (e.e. Castell-nedd Port Talbot).
 - Mae'r adeilad a'r adnoddau yn cael eu trosglwyddo i'r gymuned ac yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn unig heb gymorth parhaus gan y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol i redeg y cyfleuster (e.e. Rhondda Cynon Taf).
15. Yn ogystal ag ystyried y gwahanol fodolau, fe bwysleisiodd yr Adolygiad mor amhrisiadwy yw cymorth gwirfoddolwyr. Heb y cymorth hwn, buasai'r cyhoedd yng Nghymru wedi dioddef yn arw gan y byddai mwy fyth o lyfrgelloedd cyhoeddus wedi cau. Felly, wrth ddatblygu'r meini prawf, mae'n bwysig cydnabod y cyfraniad pwysig y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud i waith llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau.
16. Yn yr ymchwil a wnaed yng Nghymru gan yr Athro Roberts (y cyfeirir ato

uchod), ac ymchwil Mike Cavanagh⁷, sy'n cyfeirio at y DU gyfan, pwysleisiwyd pa mor amrywiol yw natur ac ansawdd y ddarpariaeth a geir gan llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at yr angen i bennu meini prawf er mwyn penderfynu a ddylid ystyried llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yn rhan o'r ddarpariaeth statudol o ran darparu llyfrgelloedd.

D. Ystyriaethau Allweddol wrth Ddatblygu'r Meini Prawf

17. Mae dyletswydd statudol awdurdod lleol i ddarparu "*gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno ei ddefnyddio*" yn hollbwysig wrth ddatblygu canllawiau perthnasol. Fel yr amlinellwyd yn yr Adolygiad, un o wendidau Deddf 1964 yw nad oes gwybodaeth fanwl i'w chael i egluro beth yw "*gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon*". Ni chafwyd canllawiau clir a manwl i egluro beth a olygir wrth "*wasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon*" yn sgil yr adolygiadau barnwrol diweddar mewn perthynas â gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Yng Nghymru mae gennym y Fframwaith ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, i helpu i gael diffiniad gweithredol o'r hyn a olygir wrth wasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus "*cynhwysfawr ac effeithlon*".
18. Yn y paragraffau isod, amlinellir rhai o'r prif ganllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd i'n helpu i ddehongli Deddf 1964.

Ymchwiliad Cilgwri

19. Yn Adran 8, Ymchwiliad Cilgwri, cafwyd y canllawiau isod:
 - *securing and keeping a wide range of free resources, including books and other printed matter, pictures, sound recordings, films and other materials, to browse and borrow in sufficient number, range and quality;*
 - *to meet the general requirements (and any special requirements) of both adults and children living, working or studying in the local area;*
 - *free independent information and advice from staff; and encouraging use and participation of the service, for example, through clear and easy ways to join, access, shape and influence the service.*

Y Safonau

20. Awgrymwyd yn yr Adolygiad y gallai'r meini prawf ar gyfer cynnwys, neu beidio â chynnwys, llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yn rhan o'r ddarpariaeth statudol, '*fod yn seiliedig ar yr hawliau craidd a amlinellir yn y Pumed Fframwaith Ansawdd*'. Roedd yr ymatebion i'r canllawiau drafft diweddar ar y ddarpariaeth statudol yn gryf o blaid seilio'r meini prawf ar y Safonau presennol

⁷ Cavanagh, M. (2014). *Are Community Managed Libraries Effective?* Ar gael o <http://tinyurl.com/pqy2uth>

yn hytrach na chreu set newydd o feini prawf.

21. Bwriad yr Hawliau Craidd, a gymerwyd o'r Safonau ac a amlinellir isod, yw sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn ymgysylltu â'i gwsmeriaid a'i ddarpar ddefnyddwyr, gan gynnig cyfleoedd i unigolion ac i'r gymuned ddatblygu.

Cwsmeriaid a Chymunedau

SLICC HC 1: Sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu.

SLICC HC 2: Cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

SLICC HC 3: Darparu mynediad at ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol.

Mynediad i Bawb

SLICC HC 4: Bod ar agor i holl aelodau eu cymunedau.

SLICC HC 5: Bod yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy.

SLICC HC 6: Darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas.

SLICC HC 7: Darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.

Dysgu am Oes

SLICC HC 8: Benthycu llyfrau am ddim.

SLICC HC 9: Cynnig mynediad am ddim i wybodaeth.

SLICC HC 10: Darparu defnydd am ddim o'r Rhynggrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi.

SLICC HC 11: Cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd.

SLICC HC 12: Darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau newidiol cyhoeddi.

SLICC HC 13: Rhannu eu catalogau, er mwyn i ddefnyddwyr fedru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru.

Arweinyddiaeth a Datblygu

SLICC HC 14: Hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau.

SLICC HC 15: Ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

SLICC HC 16: Gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.

SLICC HC 17: Darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.

SLICC HC 18: *Darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le.*

E. Tystiolaeth yn gymorth i benderfynu

22. Yn ogystal â'r ymchwil a wnaed gan yr Athro Roberts, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymchwiliadau, gan ddefnyddio'r Hawliau Craidd i helpu i benderfynu a ddylid ystyried llyfrgell gymunedol yn rhan o'r ddarpariaeth statudol. Mae'r ymchwil yn dangos ei bod yn bosibl defnyddio'r Hawliau Craidd fel meini prawf er mwyn helpu i benderfynu a ddylid ystyried llyfrgell gymunedol yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod llyfrgell. Mae'r paragraffau isod yn amlinellu ym mha fodd y mae'r Hawliau Craidd yn berthnasol i Ddeddf 1964 ac fe'u cysylltir hefyd â ffactorau yng nghanllawiau Cilgwri ac ymchwil arall. Gwneir ymgais hefyd i fesur rhai o'r Hawliau Craidd, er enghraifft lefel y staffio sydd yn angenrheidiol er mwyn bodloni'r meini prawf, ac fe wneir rhai awgrymiadau ymarferol mewn perthynas â monitro.

Yr Hawliau Craidd

SLICC HC 1: Sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu

23. Mae'r Safonau a hefyd y ffactorau yng nghanllawiau Ymchwiliad Cilgwri yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu staff cyflogedig, medrus a gwybodus mewn llyfrgelloedd.
- Cilgwri - *gwybodaeth a chyingor annibynnol gan staff yn rhad ac am ddim; a hybu defnydd o'r gwasanaeth a chyfranogiad ynddo, er enghraifft, drwy sicrhau bod ffyrdd clir a rhwydd o ymuno â'r gwasanaeth, o gyrraedd ato, o'i lunio ac o ddylanwadu arno*
 - Y Safonau - *SLICC HC 1 Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu.*
24. Dywedodd yr ymatebion i'r canllawiau drafft y byddai'n well ganddynt ddiffinio faint o staff cyflogedig sydd eu hangen fel canran o'r oriau agor a bod 75% yn lefel rhy uchel yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Felly, er mwyn bodloni'r meini prawf, dylai staff cyflogedig fod ar gael am 50% o oriau agor llyfrgell a reolir gan gymuned.
25. Mewn llyfrgelloedd sy'n gwasanaethu cymuned sydd, yn ôl strategaeth llyfrgelloedd yr awdurdod lleol, yn teilyngu cael llyfrgell yn agored am fwy na 30 awr yr wythnos (ar 1 Ebrill 2015) dylid cael y nifer arferol o staff a gyflogir gan yr awdurdod llyfrgell (staffio'n llawn yn ystod yr oriau agor craidd) ac mae croeso i unrhyw gyfraniad a wneir gan wirfoddolwyr er mwyn cynnig gwerth ychwanegol i'r gwasanaeth hwn.

26. Mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yr awdurdod lleol yn darparu staff cyflogedig ar gyfer rhai llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yng Nghymru (yn Sir Conwy, er enghraifft); neu fe gyflogir staff drwy gael nawdd o wahanol ffynonellau e.e. cyfraniad gan y cyngor cymuned neu grant (mewn rhai llyfrgelloedd yn Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot, er enghraifft). Mae'r ddau fodel hyn yn bodloni'r meini prawf.

SLICC HC 2: Cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

27. Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd er budd y cyhoedd. Gall trydydd parti ddarparu'r gweithgareddau hyn, e.e. grwpiau darllen (mewn partneriaeth, efallai, â gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol), Cymunedau Digidol (olynydd Cymunedau 2.0) er mwyn cynnig hyfforddiant TGCh neu Dechrau'n Deg er mwyn cynnig gweithgareddau i rieni a phlant bach. Os bydd hyn yn digwydd, gall hefyd hyrwyddo mwy o ddefnydd o gyfleusterau llyfrgelloedd er budd y gymuned. Mae peth tystiolaeth yn dechrau dod i'r amlwg, lle bo grwpiau cymunedol yn weithgar ac yn rheoli agweddau ar waith llyfrgell gymunedol, eu bod chwilio am gyfleoedd i gynnal rhagor o weithgareddau yn yr adeilad pan fydd y llyfrgell ar gau.

SLICC HC 3: Darparu mynediad at ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol.

28. Gellir bodloni'r maen prawf hwn drwy ddarparu ystod o ddeunyddiau, e.e. llyfrau, amlgyfrwng/clyweled, mynediad i'r rhyngwrwd a staff cyflogedig i helpu pobl i gael gafael ar yr adnoddau hyn a'u defnyddio.

SLICC HC 4: Bod ar agor i holl aelodau eu cymunedau.

SLICC HC 5: Bod yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy.

29. Cefnogir yr Hawl Graidd hon gan Adran 7(1), Deddf 1964 [nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw]:

It shall be the duty of every library authority to provide a comprehensive and efficient library service for all persons desiring to make use thereof . . .

30. Dywed Adrannau 8(3) ac 8 (4) y Ddeddf [nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw]:

(3) Nothing in any regulations under this section shall authorise any charges to be made by a library authority for lending any written material to any person where-

(a) it is the duty of the authority under section 7(1) above to make facilities for borrowing available to that person;

(b) the material is lent in the course of providing such facilities to that person on any library premises;

(c) the material is lent in a form in which it is readable without the use of any electronic or other apparatus; and

(d) that person is not a person who has required any such apparatus to be used, or made available to him, for putting the material into such a form in order that he may borrow it; but this subsection shall not prevent any regulations under this section from authorising the making of charges in respect of the use of any facility for the reservation of written materials or in respect of borrowed materials which are returned late or in a damaged condition.

(4) Nothing in any regulations under this section shall authorise any charges to be made by a library authority for making facilities available for any person to do any of the following on any library premises, that is to say-

(a) reading the whole or any part of any of the written materials for the time being held by the authority in a form in which they are readable without the use of any electronic or other apparatus or in microform;

(b) consulting (whether or not with the assistance of any such apparatus or of any person) such catalogues, indexes or similar articles as are maintained, in any form whatever, exclusively for the purposes of that authority's public library service.

SLICC HC 6: Darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas.

31. Yn ystod yr ymgynghoriad a wnaed fel rhan o'r Adolygiad Arbenigol a'r gwaith o ddatblygu pumed fframwaith ansawdd y Safonau, un cwestiwn a ofynnwyd i swyddogion Llywodraeth Cymru oedd pwysyddai'n penderfynu a yw'r Hawl Graidd hon yn cael ei bodloni ai peidio. Yr hyn sy'n cael ei gynnig yw, pe dymunai awdurdod lleol gynnwys llyfrgell a reolir gan gymuned fel rhan o'u gwasanaeth statudol, yna fe ddylai llyfrgellydd proffesiynol o'r gwasanaeth hwnnw asesu pa mor addas yw'r llyfrgell honno i'w chynnwys.
32. Byddai swyddog Llywodraeth Cymru, neu'r cynghorydd sydd yn gyfrifol am y Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol, yn ymweld â sampl o bwyntiau gwasanaeth llyfrgelloedd i asesu i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r gofynion.

33. Pan benderfynir a yw'r oriau agor yn addas ac a ddylai gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol ddarparu stoc ar gyfer y llyfrgell, dylid ystyried y sylwadau a ganlyn a wnaed gan y Panel Arbenigol:

“Mewn sawl achos fe welwyd lleihad sylweddol yn oriau agor llyfrgelloedd cyhoeddus yn dilyn sefydlu llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, o’u cymharu â darpariaeth flaenorol yr awdurdod lleol. Mae’r Panel yn pryderu oherwydd na fyddai buddsoddi yn y stoc a’r cyfleusterau mewn llyfrgell sy’n agored am gyn lleied o oriau yn cynnig gwerth da am arian, beth bynnag yw ffynhonnell y cyllid a’r gefnogaeth”.

SLICC HC 7: Darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.

34. Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gyngorau i roi ystyriaeth briodol i ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.
35. Dywed Adran 7(2)(a) Deddf 1964:

General duty of library authorities.

(a) of securing, by the keeping of adequate stocks, by arrangements with other library authorities, and by any other appropriate means, that facilities are available for the borrowing of, or reference to, books and other printed matter, and pictures, gramophone records, films and other materials, sufficient in number, range and quality to meet the general requirements and any special requirements both of adults and children.

At hynny, fe dynnwyd sylw yn Ymchwiliad Cilgwri at yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb (paragraff 19):

*As noted above, the Inquiry has found the Council to be in **breach of its statutory duties** under the Public Libraries and Museums Act 1964, because it **failed to make an assessment of local needs** in respect of its Library Services. It therefore cannot have acted reasonably in meeting such needs in the context of its statutory duties and available resources, as, in the absence of such assessment or demonstrable knowledge of local needs, it was incapable of identifying a reasonable option for meeting such needs both comprehensively and efficiently.*

*In particular, there are some **specific needs for adults** that have not been addressed. These include the specific requirements for older people, disabled people, unemployed people, and those living in deprived areas.
[print trwm yn unol â’r gwreiddiol]*

SLICC HC 8: Benthycu llyfrau am ddim.

36. Rhoddir sylw i'r Hawl Graidd hon yn Adrannau 8(3) a 8(4) Deddf 1964 lle nodir:

(3) Nothing in any regulations under this section shall authorise any charges to be made by a library authority for lending any written material to any person where -

SLICC HC 9: Cynnig mynediad am ddim i wybodaeth.

37. Mae canllawiau Ymchwiliad Cilgwri yn nodi y dylai llyfrgelloedd ddarparu *gwybodaeth a chynghor annibynnol am ddim gan staff*. Gan hynny, credir ei bod yn hanfodol cael staff medrus a gwybodus wrth law mewn llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau er mwyn helpu a chynghori'r cyhoedd, os yw'r llyfrgell honno am gael ei hystyried yn rhan o'r ddarpariaeth statudol. Y cwestiwn mawr yw pa lefel o staff cyflogedig sydd ei hangen. Ni chredir bod cynnig llawer o gymorth i reoli'r llyfrgell yn ddigon i fodloni'r maen prawf hwn.

SLICC HC 10: Darparu defnydd am ddim o'r Rhyngwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi.

38. Mae tuedd gynyddol i wasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu ar-lein yn bennaf, er enghraifft Paru Swyddi Ar-lein a Chredyd Cynhwysol, ac yn wyneb hynny mae mynediad di-dâl at gyfrifiaduron a'r rhyngwyd yn rhan hanfodol o ddarpariaeth llyfrgell gyhoeddus fodern er mwyn trechu tloedi ac allgau digidol. Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2008, ar ran yr awdurdodau lleol, Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr a Llywodraeth Cymru, y dylai pawb gael hawl i fynediad di-dâl at gyfrifiaduron a'r rhyngwyd. Mae llawer o awdurdodau yn parhau i gefnogi cyfleusterau TGCh mewn llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau ac felly fe ddylai fod yn bosibl bodloni'r maen prawf hwn.

SLICC HC 11: Cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd.

39. Gellir cyflawni hyn drwy gyfrwng y cyfleusterau ar-lein a ddarperir am ddim fel rhan o ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yr awdurdod lleol neu wasanaethau di-dâl Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd ar gael yn: <http://www.llgc.org.uk/index.php?id=242>

SLICC HC 12: Darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau newidiol cyhoeddi.

40. Fe nododd Ymchwiliad Cilgwri pa mor bwysig yw:

securing and keeping a wide range of free resources, including books and other printed matter, pictures, sound recordings, films and other materials, to browse and borrow in sufficient number, range and quality.

41. Yng Nghymru dylai hyn gynnwys yn ogystal ddarpariaeth yn yr iaith Gymraeg, a mynediad at ddeunydd mewn ieithoedd eraill a ddefnyddir yng nghymuned leol y llyfrgell.

SLICC HC 13: Rhannu eu catalogau, er mwyn i ddefnyddwyr fedru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru.

42. Gall llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau ac sy'n derbyn cefnogaeth gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol fodloni'r maen prawf hwn drwy ddefnyddio system reoli llyfrgelloedd yr awdurdod lleol. Os nad yw'r llyfrgell a reolir gan gymuned yn defnyddio system llyfrgelloedd yr awdurdod lleol, neu os nad oes ganddi fynediad at y system, fe farnir nad yw'n bodloni'r maen prawf hwn.

SLICC HC 14: Hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau.

43. Mae'n hollbwysig fod pob llyfrgell yn hyrwyddo ei hadnoddau er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn elwa o'r cyfleusterau hyn. Ceir enghreifftiau o lyfrgelloedd a reolir gan gymunedau sydd wedi hyrwyddo eu gwasanaethau yn llwyddiannus. Gellir cyflawni hyn mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth sydd ar waith yn yr awdurdod cyfan, drwy gymryd rhan mewn ymgyrchoedd marchnata. Os bydd awdurdodau lleol yn dymuno cynnwys llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau a'u gwneud yn rhan o'u darpariaeth statudol, ac nad yw'r llyfrgelloedd hynny ond yn cynnal gweithgareddau hyrwyddo ar eu pennau eu hunain, mae'n rhaid sicrhau bod tystiolaeth glir ar gael, os gofynnir amdani, i ddangos bod gweithgareddau hyrwyddo addas yn digwydd. Gallai tystiolaeth o'r fath gynnwys gwybodaeth ar-lein am oriau agor a gwasanaethau, deunydd hyrwyddo printiedig a defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

SLICC HC 15: Ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

44. Mae'n bwysig bod pob llyfrgell yn ymgynghori â'i defnyddwyr er mwyn datblygu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion. Gallai llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn ymgynghori.

SLICC HC 16: Gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau

holl llyfrgelloedd Cymru.

45. Mae gan lawer o lyfrgelloedd a reolir gan gymunedau gytundebau lefel gwasanaeth â gwasanaeth llyfrgelloedd yr awdurdod lleol er mwyn cyfranogi mewn gweithgareddau i rannu adnoddau fel benthyciadau rhwng llyfrgelloedd. Byddai hyn yn ddigon i gydymffurfio â'r maen prawf.

SLICC HC 17: Darparu mynediad at strategaeth, polisiau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.

SLICC HC 18: Darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le.

46. Disgwylir y gall llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau fodloni'r holl feini prawf hyn, yn enwedig gyda chymorth gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol.

Adolygiadau Barnwrol

47. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi monitro Adolygiadau Barnwrol er mwyn gweld a geir unrhyw arweiniad ar sut i ddiffinio "gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon". Mae'r holl adolygiadau barnwrol wedi bod ynglŷn â'r broses a ddilynir gan awdurdodau lleol wrth adolygu eu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Un dyfarniad a wnaed yn ddiweddar oedd yr un gan Mr Ustus Collins yn yr achos rhwng Simon Draper a Chyngor Swydd Lincoln,⁸ ac mae'r dyfarniad hwn hefyd yn cyfeirio at achosion blaenorol.

48. Dywed Mr Ustus Collins yn ei ddyfarniad:

"Before going further into the proposals which led to the consultation exercise and the decision of 3 December 2013, I should consider what is required to provide a comprehensive and efficient service within the meaning of section 7 of the Deddf 1964. I can, I think, do no better than cite the following observations of Ouseley, J in Bailey v London Borough of Brent [2011] EWHC 2572 (Admin):-

"A comprehensive service cannot mean that every resident lives close to a library. This has never been the case. Comprehensive has therefore been taken to mean delivering a service that is accessible to all residents using reasonable means, including digital technologies. An efficient service must make the best use of the assets available in order to meet its core objectives and vision, recognising the constraints on council resources. Decisions about the Service must be embedded within a clear strategic framework which

⁸ Yr Uchel Lys Cyfiawnder. (2014). Rhwng: Simon Draper a Chyngor Swydd Lincoln. Ar gael o <http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2014/2388.html>

draws upon evidence about needs and aspirations across the diverse communities of the borough."

49. Nid yw'r dyfarniad yn cynnig unrhyw ddiffiniad penodol/manwl arall, dim ond dehongliadau cyffredinol.

F. Casgliad

50. Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos ei bod yn bosibl i lyfrgell a reolir gan gymuned fodloni'r holl feini prawf arfaethedig a amlinellir uchod ac, os ydynt yn bodloni'r hawliau craidd hyn, gellid ystyried eu cynnwys yn rhan o ddarpariaeth statudol llyfrgelloedd cyhoeddus yr awdurdod lleol. Fel y nodwyd uchod, mae'n bosibl gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaeth llyfrgelloedd yr awdurdod lleol a/neu gydweithio â chynghorau cymuned a grwpiau yn y gymuned. Pan fydd y modelau hyn wedi'u datblygu, gallant arwain at arbedion drwy drosglwyddo adeilad y llyfrgell i'r grŵp cymunedol a gall gwirfoddolwyr weithio ochr yn ochr â staff cyflogedig. Fodd bynnag, fel y pwysleisir uchod, y prif faen prawf yw darparu staff medrus a gwybodus.
51. Nid yw'r model sydd yn darparu staff medrus a gwybodus yn cynnig cymaint o arbedion ag a gynigir gan fodelau eraill. Ond nid gwneud arbedion ariannol yw unig bwrpas datblygu'r meini prawf; maent hefyd wedi'u bwriadu fel modd i sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon sydd o ansawdd da ac sy'n cael ei ystyried yn deilwng o wasanaeth statudol.
52. Mae'r adroddiadau ymchwil a grybwyllwyd yn y ddogfen hon wedi pwysleisio, heb gymorth gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol, nad yw llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau wedi llwyddo i ddatblygu model sy'n rhoi yr hyn y gellir ei ystyried yn wasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon. Gall modelau eraill ar gyfer llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau barhau i gynnig gwasanaeth gwerthfawr i'w cymuned a chydweithio â gwasanaeth llyfrgelloedd yr awdurdod lleol ac mae'n bosibl, yn y dyfodol, y byddant yn gallu bod yn rhan o ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus statudol yr awdurdod lleol.
53. Mae'n amlwg oddi wrth yr ymchwil a wnaed gan yr Athro Hywel Roberts, wrth baratoi adroddiad *Llyfrgelloedd cymunedol a llyfrgelloedd ymddiriedolaethau annibynnol yng Nghymru*, y gallai'r model sy'n cael ei ddatblygu gan Sir Conwy (Model C) fodloni'r holl Hawliau Craidd ac y gallai'r awdurdod lleol ei gynnwys, felly, yn rhan o'r ddarpariaeth statudol fel rhan o ddatganiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Byddai modelau eraill sydd ar waith yng Nghymru, fel Pontyberem yn Sir Gaerfyrddin a Sarn ym Mhen-y-bont ar Ogwr, hefyd yn bodloni'r meini prawf.
54. Er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol fodelau ar gyfer llyfrgelloedd a reolir

gan gymunedau, ac i ddangos bod awdurdodau lleol (fel Siroedd Conwy, Caerfyrddin a Phen-y-bont ar Ogwr) yn rhoi llawer o gymorth i'r llyfrgelloedd, byddai'n briodol galw llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau dan arweiniad awdurdod lleol, lle bônt yn bodloni'r meini prawf i'w cynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth statudol, yn Llyfrgelloedd Cydweithredol gyda Chymorth y Gymuned, yn unol â'r diffiniadau a amlinellir ym mharagraff 163 ar dudalen 45 yr *Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru, 2014*.

G. Y Camau Nesaf

55. Dylid rhoi'r canllawiau sydd i'w gweld yn Atodiad 1 ar waith yn syth a chynnal cynllun peilot ar eu cyfer am un flwyddyn (2015-2016). Dylai gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau sy'n cynnwys awdurdod cyfan eu defnyddio wrth gwblhau eu datganiadau blynyddol ar gyfer Safonau, 2014-15.
56. Bydd yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yn adolygu'r canllawiau ac yn cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau iddynt erbyn Ebrill 2016.
57. I gael eglurhad pellach, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r staff perthnasol Llywodraeth Cymru ar y rhif 0300 062 2112.

Atodiad 1

Canllawiau Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar Gynnwys Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau

1. Prif ddiben Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (y Safonau) yw helpu i fonitro buddsoddiad awdurdodau lleol / awdurdodau llyfrgell mewn gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus a barnu a yw'r awdurdodau'n cydymffurfio â Deddf 1964. Pwrpas yr wybodaeth isod yw helpu i ddiffinio pa ddata y dylid eu cynnwys pan fydd yr awdurdod lleol / awdurdod llyfrgell yn cyflwyno Datganiad Safonau, mewn perthynas â'r dangosyddion ansawdd. Pan ddefnyddir y term darpariaeth statudol isod, mae'n cynnwys llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau os ydynt yn bodloni'r meini prawf a argymhellir ym mharagraff 4 uchod ac mae'r term hefyd yn berthnasol i ymddiriedolaethau sy'n cwmpasu awdurdod cyfan.

Dangosyddion Ansawdd

Cwsmeriaid a chymuned

2. **DASLICC 1 a 2 Gwneud gwahaniaeth a bodlonrwydd cwsmeriaid** – Os yw awdurdodau lleol yn dymuno cynnwys llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yn rhan o'u darpariaeth statudol, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod hwy (neu gorff arweiniol ar eu rhan) yn cyd-drefnu'r arolwg, a sicrhau ei fod yn arolwg cadarn, ar gyfer pob cangen/pwynt gwasanaeth llyfrgell, gan gynnwys llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau ac sy'n rhan o'r ddarpariaeth statudol.
3. **DASLICC 3 a 4 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol a hyfforddiant i ddefnyddwyr** – dim ond cymorth a hyfforddiant a ddarperir yn y llyfrgelloedd/pwyntiau gwasanaeth sydd yn rhan o'r ddarpariaeth statudol y gellir eu cynnwys yn y Datganiad Safonau, ynghyd ag unrhyw weithgareddau allgymorth y mae staff y gwasanaeth llyfrgell yn eu darparu.

Mynediad i bawb

4. **DASLICC 5 Lleoliad manau gwasanaeth** – dim ond pwyntiau gwasanaeth llyfrgell sydd yn rhan o'r ddarpariaeth statudol y gellir eu cynnwys mewn Datganiad Safonau.
5. **DASLICC 6 Defnydd o'r Llyfrgell** –
 - Ymweliadau – dim ond pwyntiau gwasanaeth llyfrgell sy'n rhan o'r ddarpariaeth statudol y gellir eu cynnwys mewn Datganiad Safonau.
 - Ymweliadau ar y we – dylid cynnwys ymweliadau â gwefan gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol / ymddiriedolaeth awdurdod cyfan yn ogystal ag unrhyw gyfran o ymweliadau ar-lein â gwasanaethau ar-lein cenedlaethol.

- Benthycwyr gweithredol – dim ond data sydd ar gael drwy system reoli llyfrgelloedd gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol y dylid eu cynnwys.
- Dylid cynnwys llyfrgelloedd teithiol yn unol â diffiniadau fframweithiau blaenorol.
- Presenoldeb defnyddwyr yn nigwyddiadau'r llyfrgell, ym mhob llyfrgell, yn ôl pob 1,000 o boblogaeth – yn unol â diffiniad y Safonau

Dysgu am Oes

6. **DASLICC 8 Deunydd darllen cyfoes** – gellir cynnwys deunydd a brynwyd gan yr awdurdod lleol ar gyfer pob llyfrgell a reolir gan gymuned yn y Datganiad Safonau os ydynt yn rhan o'r stoc sy'n cael ei gylchdroi yn rheolaidd yn y gwasanaeth llyfrgell. Dylai gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol (neu ymddiriedolaeth awdurdod cyfan) gylchdroi stoc o leiaf bob mis.
7. **DASLICC 9 Deunydd darllen priodol** – gellir cynnwys deunydd a brynwyd gan yr awdurdod lleol ar gyfer pob llyfrgell a reolir gan gymuned yn y Datganiad Safonau os ydynt yn rhan o'r stoc sy'n cael ei gylchdroi yn rheolaidd yn y gwasanaeth llyfrgell. Dylai gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol (neu ymddiriedolaeth awdurdod cyfan) gylchdroi stoc bob mis.
8. **DASLICC 10 Mynediad ar-lein** – dylid cynnwys dyfeisiau a ariannir, a gefnogir ac yr ymrwymwyd i'w hailgyflenwi fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol (neu ymddiriedolaeth awdurdod cyfan) mewn llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau.
9. **DASLICC 11 Defnyddio TGCh – % yr amser sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd** – gellir cynnwys darpariaeth TGCh a'r defnydd ohoni mewn llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau os cofnodir y defnydd o TGCh drwy system gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol ar gyfer bwcio/rheoli.
10. **DASLICC 12 Cyflenwi ceisiadau** – Dylid cynnwys ceisiadau a ddaw drwy system ceisiadau gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol neu ei system ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd. Gellir cynnwys ceisiadau drwy llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau os cânt eu gwneud drwy system reoli llyfrgelloedd gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol.

Arweinyddiaeth a datblygu

11. **DASLICC 13 Lefelau staffio a chymwysterau**
 - Lefelau staffio a chymwysterau – dim ond staff a ariannir gan yr awdurdod lleol (neu ymddiriedolaeth awdurdod cyfan) y dylid eu cynnwys yn y data ar Safonau a gyflwynir. Ni ddylid cynnwys yn y datganiad staff y telir amdanynt, sydd yn gweithio mewn llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau,

nad yw yr awdurdod lleol (neu ymddiriedolaeth awdurdod cyfan) yn eu hariannu. Ni ddylid cynnwys arian ychwanegol a godir gan y gymuned fel rhan o wariant yr awdurdod lleol (neu ymddiriedolaeth awdurdod cyfan).

- Rheolwr gweithredol dynodedig – yn unol â'r diffiniad yn y Safonau
- Hyfforddi staff – Dim ond hyfforddiant a ddarperir ar gyfer staff cyflogedig yr awdurdod lleol (neu'r ymddiriedolaeth awdurdod cyfan) y dylid ei gynnwys yn y datganiad ar gyfer y Safonau.
- Gwirfoddolwyr - Gellir cynnwys, yn rhan o'r Datganiad Safonau hwn, bob gwirfoddolwr a gefnogir gan gyd-drefnydd gwirfoddolwyr ac sydd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ar dudalen 22 ym mhumed fframwaith ansad y Safonau.

12. **DASLICC 14 Gwariant gweithredol** – Dim ond gwariant gan yr awdurdod lleol (neu ymddiriedolaeth awdurdod cyfan) y dylid ei gynnwys yn y data a gyflwynir ar y Safonau. Ni ddylid cynnwys arian ychwanegol a godir gan y gymuned fel rhan o wariant yr awdurdod lleol (neu ymddiriedolaeth awdurdod cyfan).
13. **DASLICC 15 Cost am bob ymweliad** – dim ond ymweliadau â phwyntiau gwasanaeth sydd yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod lleol y gellir eu cynnwys wrth gyfrifo'r datganiad hwn ar y Safonau, yn ogystal ag unrhyw gyfran o ymweliadau ar-lein â gwasanaethau ar-lein cenedlaethol. Er bod gwariant yr awdurdod lleol (ymddiriedolaeth awdurdod cyfan) yn cyfrannu i'r ymweliadau â llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau nad ydynt yn rhan o'r ddarpariaeth statudol, tybir y byddai'n anodd casglu data dilys am ymwelwyr gan yr holl lyfrgelloedd hyn.
14. **DASLICC 16 Oriau agor** - dim ond ymweliadau â phwyntiau gwasanaeth sydd yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod lleol y gellir eu cynnwys wrth gyfrifo'r datganiad hwn ar y Safonau.